

Gweithgaredd Ysgol Breuddwydion – CA2

Yn y gweithgaredd yma bydd y disgyblion yn archwilio’u hawliau plant wrth greu Ysgol eu Breuddwydion. Rydyn ni’n argymhell defnyddio’r cynllun gwers cyflwyno hawliau plant cyn y sesiwn hon.

Gweithgaredd	Gwybodaeth ac adnoddau ychwanegol
<p>Cyflwyniad:</p> <p>Dechreuwch y sesiwn trwy grynhoi’r dysgu blaenorol am hawliau.</p> <p>Allwch chi enwi un o’ch hawliau plant? Pwy sy’n eich helpu i gael eich hawliau? Pwy sy’n cofio enw Comisiynydd Plant Cymru?</p> <p>Esboniwch y byddwch chi’n gweithio mewn grwpiau bach heddiw i greu ysgol eich breuddwydion. Bydd ysgol eich breuddwydion yn rhywle lle mae pob plentyn yn hapus, yn iach ac yn ddiogel, ac yn derbyn eu hawliau plant.</p> <p>Rhowch daflen weithgaredd “Ysgol Fy Mreuddwydion” i bob disgybl, a gofynnwch iddyn nhw feddwl am eu hatebion yn annibynnol.</p> <p>Gofynnwch i’r disgyblion roi adborth a chynnal trafodaeth ddosbarth am eu gwahanol syniadau.</p> <p>Prif Efen:</p> <p>Rhannwch y dosbarth yn grwpiau bach a gofynnwch iddyn nhw rannu’r syniadau o’u taflen weithgaredd gyda’u grŵp.</p>	<p>Ar gyfer y wers hon bydd arnoch chi angen taflenni gweithgaredd ysgol breuddwydion.</p> <p>Gallwch chi gael hyd i ragor o wybodaeth am Gomisiynydd Plant presennol Cymru yma.</p> <p>Gallai’r disgyblion ddefnyddio gwahanol ddeunyddiau i greu eu hysgol. Er enghraifft: Papur a phinnau ysgrifennu Modelau sothach</p>

<p>Gofynnwch i bob grŵp gydweithio i lenwi taflen weithgaredd “Ysgol Ein Breuddwydion” a chreu ysgol eu breuddwydion gan ddefnyddio syniadau gan bob aelod o’r grŵp.</p> <p>Myfyrio:</p> <p>Gofynnwch i bob grŵp rannu ysgol eu breuddwydion. Gofynnwch gwestiynau sbarduno fel:</p> <ul style="list-style-type: none">- Dwedwch wrthyf fi am yr hawliau rydych chi’n meddwl sy’n bwysig yn eich ysgol.- Beth yw enw eich ygol?- Dwedwch wrthyf fi am un peth unigryw/arbennig am eich ysgol- Pa reolau sy’n bwysig yn eich ysgol?- Am beth bydd y disgyblion yn dysgu yn eich ysgol?- Sut byddwch chi’n gwneud yn siŵr bod pawb yn hapus, yn iach ac yn ddiogel?	<p>Lego Cyfrifiadur</p> <p>Gallwch chi estyn y gweithgaredd hwn mewn sawl ffordd wahanol:</p> <ul style="list-style-type: none">• creu ysgol fel dosbarth, gan gymryd ambell syniad o bob ysgol breuddwydion• gosod y dasg fel her trwy bennu cyllideb ar gyfer yr adeiladu a rhoi pris ar bob eitem, e.e. mae waliau’n costio £100.• dewis maes i bob grŵp ganolbwyntio arno, e.e. tu allan/amser cinio/bwyd• gofyn i’r disgyblion gymharu ysgol eu breuddwydion ag ysgolion ar draws y byd
---	---